# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac yn rhithwir ar Zoom ar 21 Mai, 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Jeff Evans (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Sonia Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Geraint Bebb, John Ifan Jones, Aled M. Jones, R. Llewelyn Jones, Jackie Lewis, Llio A. Owen, Keith Roberts.<br><br>Aelodau Cyfetholedig : Mrs Wenda Owen (Yr Eglwys yng Nghymru) Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig).<br><br>Aelodau Lleol: Y Cynghorwyr Trefor Lloyd Hughes, MBE, Pip O'Neill<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorwyr Gary Pritchard (Arweinydd ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd), Neville Evans (Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol), Alun Roberts (Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol), Dafydd Roberts (Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg), Nicola Roberts (Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd), Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Thai. |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth Democratiaeth (DS)<br>Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Rhaglenni Corfforaethol (GP)<br>Swyddog Sgriwtini (EA)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH)<br>Swyddog Gwe-ddarlledu (FT) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Ieuan Williams, Alwen Watkin, Arfon Wyn, Glyn Haynes (Aelod Lleol), y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones (Aelod Portffolio Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr Fôn Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |

---

### 1 DATGAN BUDDIANNAU

Bu i'r Cynghorwyr Jeff Evans a Keith Roberts ddatgan budd personol yn unig mewn perthynas ag eitem 3 ar yr agenda fel aelodau o Gorff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Caergybi.

Bu i'r Cynghorwyr Pip O'Neill a Trefor Lloyd Hughes, MBE (nad ydynt yn aelodau o'r pwyllgor) ddatgan budd personol mewn perthynas ag eitem 3 ar yr agenda fel aelodau o

Gorff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Caergybi a Chymdeithas Bêl-droed Cymru yn y drefn honno.

## 2 ADRODDIAD YMGYSYLLTU – DARPARIAETH ADDYSG ÔL-16

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ar ganlyniad yr ymarferiad ymgysylltu â’r cyhoedd ynglŷn â dyfodol darpariaeth addysg ôl-16 ar Ynys Môn i'w ystyried a'i adolygu gan y pwyllgor.

Cyflwynodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg, yr adroddiad gan egluro bod y Cyngor wedi penderfynu cynnal ymarferiad ymgysylltu â'r cyhoedd ar y ddarpariaeth addysg ôl-16 ar gyfer Ynys Môn a gynhaliwyd rhwng 20 Ionawr a 7 Mawrth 2025. Yn hytrach nag ymgynghoriad ffurfiol, dewiswyd yr ymarferiad ymgysylltu oherwydd nad oedd unrhyw gynnig penodol yn cael ei gyflwyno ac oherwydd bod y Cyngor eisiau cynnwys ystod ehangach o randdeiliaid a meithrin sgwrs ehangach i ddeall gwahanol safbwyntiau a barn. Gwahoddwyd rhanddeiliaid i roi adborth ar sawl opsiwn fel y nodwyd yn yr adroddiad a chawsant gyfle i gynnig opsiynau eraill. Yn ogystal â'r arolwg ymgysylltu, cynhaliwyd sesiynau wyneb yn wyneb ar gampws Coleg Menai yn Llangefni ac ar draws y pum ysgol uwchradd. Cafwyd ymateb sylweddol i’r ymarferiad ymgysylltu â’r cyhoedd fel y manylir yn yr adroddiad ymgysylltu.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod yr adroddiad yn elfen allweddol o ymrwymiad y Cyngor i adolygu'r ddarpariaeth addysg ôl-16, fel yr amlinellir yn Rhaglen Amlinellol Strategol Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu y Cyngor a'i Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg. Mae'r ddwy ddogfen yn pwysleisio'r angen i ailasesu'r model darpariaeth addysg ôl-16 presennol i sicrhau ei fod yn gynaliadwy, yn effeithlon ac yn gallu ymateb i brofiadau dysgwyr. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at yr heriau presennol o fewn y sector gan gynnwys maint dosbarthiadau, newidiadau demograffig a hyfywedd ariannol. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (54%) yn yr ymarferiad ymgysylltu’n gefnogol i adolygu'r ddarpariaeth addysg ôl-16, a'r opsiwn a ddewiswyd oedd Opsiwn 2 – datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr presennol. Nododd ymatebwyr sawl blaenoriaeth ar gyfer dyfodol darpariaeth ôl-16 gan gynnwys hygyrchedd lleol, ansawdd addysgu a’r dewis o bynciau’n lleol. O ystyried yr adborth a gafwyd drwy ymgysylltu cyhoeddus, argymhellir i'r pwyllgor eu bod yn cefnogi Opsiwn 2 fel y ffordd fwyaf priodol ymlaen ac awdurdodi swyddogion i baratoi cynllun strategol i'r perwyl hwn. Bydd y cynllun hefyd yn anelu at fynd i'r afael â'r heriau presennol o ran darpariaeth addysg ôl-16 ar Ynys Môn gan gryfhau hawliau a phrofiad dysgwyr ôl-16. Mae'r weledigaeth hon yn cyd-fynd â'r uchelgais ehangach o sicrhau addysg o'r ansawdd uchaf posibl ar yr Ynys ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Wrth adolygu'r adroddiad ymgysylltu, trafododd y pwyllgor y materion canlynol –

- Gofynnodd aelodau am eglurhad ynghylch beth fyddai perthynas waith agosach rhwng darparwyr presennol yn ei olygu, manteision y dull hwn ac a fyddai'n arwain at gostau ychwanegol.

  Esboniodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod y Cyngor yn edrych ymlaen at weithio gydag ysgolion, y coleg, rhieni a dysgwyr i ddatblygu fframwaith ar gyfer cydweithredu agosach. Deilliodd nifer o syniadau o'r ymgysylltu cyhoeddus ac mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddod â'r rhanddeiliaid at ei gilydd i greu cynllun strategol i fynd i'r afael â'r heriau hyn dros amser. Mewn ymateb i gwestiynau pellach am wella’r dewis a’r pynciau sydd ar gael ym mhob sefydliad gan leihau'r angen i ddysgwyr deithio rhwng safleoedd, cydnabu'r Cyfarwyddwr Addysg a Sgiliau fod gwaith i'w wneud i wella profiadau dysgwyr. Mae'r Cyngor yn parhau i ymrwymo i weithio ochr yn ochr â rhanddeiliaid i sicrhau'r gwelliannau hyn.

DRAFT

- Holodd yr Aelodau am yr heriau a'r risgiau posibl o beidio â gweithredu'r cynnig a ph’un ai a oes gan y Cyngor gynllun wrth gefn.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc y byddai peidio â mynd i'r afael â'r heriau a nodwyd nawr yn ei gwneud hi'n llawer anos rhoi ystyriaeth iddyn nhw yn y dyfodol. Mae'r ymarferiad ymgysylltu wedi creu disgwyliad ymhlith rhanddeiliaid y bydd y mater yn cael ei ddatrys. Pwysleisiodd y Prif Weithredwr fod y broses ymgysylltu wedi rhoi cyfeiriad clir i'r Cyngor. Yn unol ag argymhelliad yr adroddiad, bydd y cynllun strategol yn ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael ac yn darparu'r manylion angenrheidiol. Cyn y gall unrhyw ymgynghoriad ffurfiol ddigwydd, rhaid cynnal yr asesiadau effaith angenrheidiol. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith, bydd angen dilyn proses drylwyr cyn y gellir cyflawni unrhyw un o'r nodau a'r amcanion.

- Er bod y pwyllgor yn cydnabod bod yr ymarferiad ymgysylltu’n gynhwysfawr, gan ganmol yn benodol yr ymateb cryf gan ddysgwyr, ceisiwyd sicrwydd ei fod wedi llwyddo i gyrraedd dysgwyr o wahanol oedrannau, galluoedd a diddordebau academaidd.

  Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod y sesiynau ymgysylltu a gynhaliwyd trwy'r ysgolion a'r coleg wedi cynnwys dysgwyr o wahanol grwpiau blwyddyn gyda chyfle ychwanegol i gymryd rhan trwy'r arolwg ymgysylltu. Pwysleisiodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod y Cyngor yn gwerthfawrogi safbwyntiau plant a phobl ifanc yn fawr. Un o'r themâu a ddaeth i'r amlwg o'r ymarferiad ymgysylltu oedd yr angen i roi mwy o bwyslais ar farn pobl ifanc. Os cymeradwyir yr argymhelliad, bydd gan y Cyngor amser i ddatblygu'r dull hwn ymhellach, o bosibl drwy sefydlu grwpiau ffocws a chael mewnbwn dysgwyr sydd wedi cwblhau eu haddysg ôl-16.

- Codwyd cwestiynau ynglŷn â sut mae'r newidiadau yn cyd-fynd â Chynllun y Cyngor ac yn cyfrannu at ei gyflawni.

  Esboniodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod cysylltiad agos rhwng yr ymarferiad ymgysylltu, yr adroddiad a'r canlyniadau posibl ar gyfer darpariaeth addysg ôl-16 â sawl amcan allweddol o Gynllun y Cyngor. Un o'r rhain yw rhoi mwy o gyfleoedd i ddysgu a siarad y Gymraeg - amcan sy'n rhedeg drwy'r ymgysylltu fel llinyn aur. Amcan allweddol arall yw darparu addysg effeithiol ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol - mae'r ymarferiad ymgysylltu a'r gwaith sy'n deillio o hynny yn anelu at ei gyflawni yn y sector ôl-16.

- Holodd yr aelodau am y sylw a roddwyd i'r Gymraeg yn yr ymarferiad ymgysylltu â'r cyhoedd.

  Cadarnhaodd y Pennaeth Democratiaeth fod Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg wedi'i gynnal ynglŷn â'r cynnig i ddatblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr addysg ôl-16 presennol. Roedd Comisiynydd y Gymraeg wedi holi am gwmpas yr asesiad. Mewn ymateb, eglurwyd mai ymgysylltiad cyhoeddus a gynhaliwyd yn hytrach nag ymgynghoriad ffurfiol. Os bydd angen ymgynghoriad ffurfiol ar gamau yn y dyfodol, bydd asesiad effaith ychwanegol yn cael ei gynnal.

  Cododd aelod bryderon ynglŷn â'r berthynas rhwng ysgolion a'r cwrs TAR ym Mhrifysgol Bangor, gan nodi ei fod yn ymwybodol o ysgol sy'n amharod i gynnig lleoliadau i raddedigion sy'n chwilio am brofiad addysgu fel rhan o'u hyfforddiant a'u mynediad i'r proffesiwn. Mewn ymateb, dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr y byddai'n mynd ar drywydd y mater penodol gyda'r aelod a phwysleisiodd fod gan ysgolion yr Ynys berthynas gadarn â'r Brifysgol. Cyfeiriodd at bartneriaeth CaBan a sefydlwyd sawl blwyddyn yn ôl rhwng y brifysgol, ysgolion a'r consortiwm addysg rhanbarthol. Trwy’r bartneriaeth cyflwynwyd rhaglen yn dynodi ysgolion penodol fel ysgolion/hybiau blaenllaw ar gyfer hyfforddiant athrawon, gan gynnwys ysgolion ar Ynys Môn.

DRAFT

Mynegodd aelod bryder hefyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod, o ystyried arwyddocâd y pwnc. Gofynnodd a yw cyfarfodydd y pwyllgor yn cael digon o gyhoeddusrwydd.

Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth fod ymgysylltu â'r cyhoedd wedi bod yn rhan allweddol o'r adolygiad sgriwtini. Er bod camau wedi'u cymryd i wella cyfranogiad y cyhoedd, mae angen gwaith pellach a bydd yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Bydd y pwyllgor yn cael ei ddiweddaru maes o law.

**Ar ôl adolygu Adroddiad Ymgysylltu Darpariaeth Addysg Ôl-16 a derbyn sicrwydd ynghylch y materion a godwyd, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol argymell y canlynol i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith -**

- **Datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr presennol, ac**
- **Awdurdodi Swyddogion i baratoi cynllun strategol ar gyfer datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr ôl-16 presennol a fydd yn ceisio mynd i'r afael â neu liniaru'r heriau sy'n wynebu darpariaeth addysg ôl-16 ar Ynys Môn ar hyn o bryd, ac i gryfhau hawl i ddysgu a phrofiad dysgwyr ôl-16.**

## 3 STRATEGAETH MODERNEIDDIO CYMUNEDAU DYSGU A DATBLYGU'R GYMRAEG – ADEILAD YSGOL NEWYDD POSIBL YN ARDAL CAERGYBI

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc a oedd yn gofyn am farn y pwyllgor ar y cynnig i adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer dysgwyr 11-18 oed a chynnal ymgynghoriad statudol i'w ystyried.

Cyflwynodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Aelod Portffolio Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, yr adroddiad a'r cynnig fel persbectif cyffrous i Gaergybi a'r Ynys. Tynnodd sylw at gyflwr adeilad Ysgol Uwchradd Caergybi. Er ei fod yn weithredol, mae angen gwaith atgyweirio mawr arno neu godi adeilad newydd yn ei le yn y tymor byr i'r tymor canolig. Mae'r ffaith bod RAAC mewn llawer o adeiladau'r ysgol yn golygu bod angen mynd i'r afael â'r sefyllfa yn y tymor byr. Er bod gwaith adfer wedi'i wneud i sicrhau bod yr ysgol yn ddiogel, mae datrysiad hirdymor yn hanfodol. Mae'r papur cynnig yn cyflwyno canlyniadau'r gwaith a wnaed i edrych ar ystod o opsiynau ar gyfer dyfodol Ysgol Uwchradd Caergybi ac mae wedi'i ysgrifennu yn unol â disgwyliadau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig (011/2018). O ystyried bod y gofynion ar ysgolion wedi datblygu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ystyrir mai'r cynnig i adleoli Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd yw'r ateb mwyaf effeithiol i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r ysgol. Felly, gofynnir i'r pwyllgor gefnogi'r cynnig a dechrau ymgynghoriad statudol ar y mater.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc drosolwg o'r papur cynnig gan gadarnhau ei fod yn cydymffurfio â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig ac yn cyd-fynd ag ymrwymiad y Cyngor i wella ysgolion a chreu amgylcheddau dysgu modern sy'n cefnogi cymunedau a'r Gymraeg. Mae'r cynnig yn cynnwys adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i ysgol newydd sydd wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer dysgwyr rhwng 11-18 oed gyda lle i 900 o ddisgyblion. Wrth ddatblygu'r cynnig, ystyriodd y Cyngor nifer o ffactorau fel yr amlinellir yn y papur a'r prif ffactor sy'n sbarduno'r cynnig yw cyflwr yr adeilad presennol - wedi'i ddosbarthu fel Gradd C (gweithredol ond mae angen gwaith atgyweirio mawr arno neu godi adeilad newydd yn ei le yn y tymor byr i'r tymor canolig). Mae'r costau cynnal a chadw presennol a'r rhai a ragwelir ar gyfer adeilad presennol yr ysgol yn y dyfodol yn dod i swm o bron £29m. Er bod amrywiaeth o opsiynau eraill ar gyfer dyfodol Ysgol Uwchradd Caergybi wedi'u hystyried, fel y manylir yn adran 6 o'r adroddiad, adleoli dysgwyr yr ysgol i ysgol bwrpasol newydd ar gyfer plant 11-18 oed yw'r opsiwn a ffefrir. Mae'r goblygiadau o ran cost wedi'u nodi yn adran 7 o'r adroddiad.

DRAFT

Disgrifiodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc y cynnig fel cyfle i sefydlu ysgol fodern, addas i'r diben gan fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu Ysgol Uwchradd Caergybi, yn enwedig problem RAAC. Yn ogystal â hyn, mae gan y cynnig y potensial i sicrhau arbedion hirdymor o ran costau atgyweirio a chynnal a chadw dros y 25 mlynedd nesaf. Mae hefyd yn cyd-fynd ag amcanion y Cynllun Amlinellol Strategol. O dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig, ystyrir adleoli ysgol i safle mwy na milltir i ffwrdd o'r safle presennol yn newid rheoledig. Mae hyn yn gofyn am broses statudol i gasglu ac ystyried barn dysgwyr a rhanddeiliaid cyn gwneud penderfyniad terfynol. Gofynnir i'r pwyllgor gefnogi'r cam arfaethedig hwn.

Croesawodd y pwyllgor yr adeilad newydd arfaethedig ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi fel datblygiad cyffrous ac yn y drafodaeth ddilynol ar y papur cynnig codwyd y materion canlynol –

- Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd bod y papur cynnig yn cydymffurfio'n llawn â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig (011/208).

  Cadarnhaodd y Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Rhaglenni Corfforaethol fod y papur cynnig wedi'i ddrafftio yn unol â gofynion y Cod sy'n nodi'n glir ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru ynghylch y cynnwys a dywedodd ei fod yn hyderus ei fod yn cydymffurfio. Yn ogystal â hyn, mae'r papur cynnig wedi cael ei adolygu gan gynghorwyr cyfreithiol allanol ac mae eu mewnbwn yn cael ei adlewyrchu yn y ddogfen derfynol.

- Holodd yr Aelodau am yr heriau a'r risgiau posibl o beidio â gweithredu'r cynnig ac a yw Swyddogion yn fodlon ei fod yn bodloni anghenion addysg uwchradd yn awr ac yn y dyfodol yn ardal Caergybi. Y gobaith oedd y gallai'r cynllun gael ei gwblhau cyn 2030, pe bai'n cael ei gymeradwyo.

  Cydnabu Arweinydd y Cyngor mai un o'r prif heriau oedd cwblhau'r dogfennau yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig a gofynion Llywodraeth Cymru. Pwysleisiodd bwysigrwydd sefydlu ysgol uwchradd o ansawdd uchel i Gaergybi a sicrhaodd y pwyllgor, yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys demograffeg a data cofrestru disgyblion ysgolion cynradd, fod y Pwyllgor Gwaith yn hyderus bod y cynnig yn diwallu anghenion addysg uwchradd yn awr ac yn y dyfodol yng Nghaergybi. Cadarnhaodd hefyd fod y gwaith sy'n sail i'r cynnig yn gadarn.

  Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod y gwaith paratoi wedi bod yn drylwyr. Nododd, er bod Arweinydd y Cyngor wedi trafod y posibilrwydd o fyrhau'r broses gyda'r Gweinidog Addysg, nid oedd hyn yn ymarferol. Sicrhaodd y pwyllgor fod y Cyngor yn symud ymlaen mor gyflym â phosibl o fewn y canllawiau - nid yn unig i gyflymu'r broses ond hefyd i leihau'r risg y bydd yr ysgol yn dirywio ymhellach, er gwaethaf y gwaith sylweddol a wnaed i sicrhau bod yr ysgol yn ddiogel.

- Ceisiodd yr aelodau sicrwydd fod hwn yn gynnig yn fforddiadwy a holwyd a oedd cyllideb wrth gefn pe nai’r broses yn para mwy na'r pum mlynedd a ragwelir. Hefyd holwyd ynghylch caffael tir a hyder y Cyngor o ran diogelu'r safle a nodwyd.

  Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod trafodaethau parhaus i gaffael y tir, gan nodi bod sawl safle yn cael eu hystyried i ymateb i'r her o sicrhau’r tir sydd ei angen ar gyfer ysgol uwchradd newydd (19 erw yn fras). Eglurodd mai £65.9m yw cost y cynnig heb gynnwys caffael tir.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod amcangyfrifon costau yn cyd-fynd â chanllawiau a ffigurau Llywodraeth Cymru ac yn cynnwys cronfeydd wrth gefn. Mae'r costau'n dibynnu p’un ai a yw'r cynllun yn dilyn y llwybr cyllido cyfalaf neu'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM) lle mae partneriaid



DRAFT

preifat yn adeiladu ac yn cynnal asedau cyhoeddus a Llywodraeth Cymru yn talu ffi i'r partner preifat, a fydd yn talu am gost adeiladu, cynnal a chadw ac ariannu’r prosiect. Ar ddiwedd y contract mae'r ased yn trosglwyddo i berchnogaeth gyhoeddus. O dan MIM, byddai'r Cyngor yn talu ffi sefydlog i'r partner preifat am ddefnyddio'r ysgol dros 25 mlynedd, a thrwy hynny’n symud y risgiau o ran cost i'r partner preifat. O safbwynt fforddiadwyedd, cydnabu Swyddog Adran 151 fod y cynnig yn fuddsoddiad mawr. Mae'r ddau lwybr cyllido yn golygu y bydd costau ychwanegol – tua £1m bob blwyddyn ar gyfer MIM a swm tebyg ar gyfer ad-dalu benthyciad o dan gyllid cyfalaf. Mae gwahaniaeth rhyngddynt o ran y cyfnodau ad-dalu: 25 mlynedd ar gyfer y contract MIM a 60 mlynedd ar gyfer benthyciad cyfalaf. Pe bai'r Cyngor yn penderfynu cynnal y status quo, byddai adnewyddu adeilad presennol Ysgol Uwchradd Caergybi yn gofyn am fuddsoddiad o tua £30m, a fyddai’n cael ei fenthyca dros dymor byrrach o 20 mlynedd oherwydd oed yr adeilad, sy'n costio rhwng £1.4m a £2.3m y flwyddyn. Fodd bynnag, byddai ysgol newydd yn lleihau costau cynnal a chadw a gallai ddenu disgyblion a fyddai fel arall yn dewis mynychu ysgolion ar y tir mawr. Byddai hyn yn arwain at well setliad cyllido i'r Cyngor a fyddai'n helpu i gyfrannu at y costau ychwanegol. At hyn, cadarnhaodd Swyddog Adran 151 ymhellach nad yw cyfraniad cylliold Llywodraeth Cymru yn cynnwys costau caffael tir ar gyfer ysgolion newydd.

- Cododd yr aelodau bryderon am effaith bosibl safle mor fawr ar ddarpariaeth arall y gallai fod angen ei ariannu yn y dyfodol ar safle arall.

  Eglurodd y Prif Weithredwr fod y gofyniad o ran tir yn cyd-fynd â'r canllawiau ar gyfer maint yr ysgol arfaethedig. Er bod cyfleoedd i integreiddio yn bosibl, mae angen asesiad pellach i bennu dichonoldeb, manteision a chostau sy'n debygol o ychwanegu at y gost gyffredinol.  Nid yw'r cynnig yn golygu unrhyw ostyngiad mewn lefel gwasanaeth neu ddarpariaeth.

- Gofynnodd aelodau p’un ai a oedd costau ailddatblygu ar gyfer y safle ysgol presennol wedi'u hystyried ac a ellid ei ddefnyddio ar gyfer tai cymdeithasol.

  Rhoddwyd gwybod i'r pwyllgor fod y safle yn werth oddeutu £700k a fyddai'n cyfrannu tuag at gost adeiladu'r ysgol newydd. O dan brotocol y Cyngor, mae adeiladau ysgol a gaiff eu dadgomisiynu yn cael eu trosglwyddo i'r Adran Eiddo a'u cynnig i adrannau eraill y Cyngor i ddechrau. Byddai'r Gwasanaeth Tai yn asesu a yw’n addas ar gyfer tai cymdeithasol yn seiliedig ar yr angen lleol am safle o'r maint hwnnw. Os nad oes unrhyw adran yn mynegi diddordeb, byddai'r safle yn cael ei roi ar y farchnad. Nododd y Prif Weithredwr, os yw'r broses ymgynghori statudol yn arwain at ysgol newydd, mae'r amserlen bum mlynedd yn caniatáu i ddyfodol y safle gael ei werthuso fel rhan o lunio cynllun datblygu lleol newydd, gan asesu'r anghenion tai yng Nghaergybi a dosbarthu'r safle dros y deng mlynedd ar hugain nesaf.

- Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd y bydd y cynnig yn helpu'r Cyngor i gyflawni'r Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg.

  Esboniodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod adran 4 o'r papur cynnig yn amlinellu sut mae'r cynnig yn mynd i'r afael â gwahanol agweddau strategol. Byddai gweithredu'r cynnig yn cefnogi'r duedd barhaus o welliant yn erbyn canlyniadau 3 i 7 o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor. Wrth ymateb i gwestiynau pellach am gapasiti, roedd yn hyderus, ar sail y dadansoddiad o’r duedd ddemograffig a wnaed, y gall maint yr ysgol arfaethedig fodloni'r galw hyd yn oed os yw mwy na'r ganran bresennol o 57.5% o ddisgyblion y dalgylch yn dymuno mynychu.

- Cwestiynodd aelodau a fyddai'r ysgol uwchradd newydd arfaethedig yn cael effaith ar ysgolion uwchradd eraill.

DRAFT

Eglurodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod y cynnig yn golygu adleoli adeilad presennol Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad newydd yn hytrach na sefydlu ysgol newydd. Er y gall rhieni ddewis ysgol eu plentyn, mae derbyn disgyblion yn dibynnu ar feini prawf a niferoedd y plant a dderbynnir gan bob ysgol.

- Holodd aelodau hefyd am effaith safle arfaethedig yr ysgol ar drafnidiaeth.

  Esboniodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod trefniadau teithio wedi'u cynnwys yn adran 4.12 o'r papur cynnig. Os derbynnir y cynnig, bydd cynlluniau teithio llesol yn cael eu hadolygu a'u paratoi yn unol â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 unwaith y bydd y safle newydd wedi'i ddewis.

- Cododd Aelodau Lleol bryderon ynglŷn â dyfodol caeau chwarae Millbank pe bai Ysgol Uwchradd Caergybi yn symud i safle newydd. Holwyd hefyd a ellid neilltuo rhan o safle presennol yr ysgol i wella cyfleusterau parcio yn Ysgol Cybi.

  Eglurodd y Prif Weithredwr ei fod yn deall bod safle Ysgol Uwchradd Caergybi yn cynnwys y tir lle mae adeilad yr ysgol wedi'i leoli a'r cae chwarae a bod yr olaf yn cael ei ddiogelu gan gyfamod sy'n gofyn am broses gyfreithiol ar wahân a chyfiawnhad am unrhyw newidiadau. Os caiff y cynnig ei weithredu, bydd angen mynd i'r afael â chynaliadwyedd hirdymor y cae chwarae, naill ai gyda chyfranogiad y Cyngor neu drwy grŵp buddiannau cymunedol neu fenter gymdeithasol annibynnol. Pwysleisiodd nad oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud ynglŷn â'r defnydd o safle presennol yr ysgol a'r cae chwarae yn y dyfodol. Mae'r cynnig yn canolbwyntio'n unig ar y bwriad i adleoli Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad newydd ar safle arall, gydag unrhyw gynlluniau ar gyfer y safle presennol yn amodol ar broses benderfynu ar wahân ac ystyriaethau o ran defnydd tir.

  Daeth y Cadeirydd â'r drafodaeth i ben gan bwysleisio bod addysg a lles plant a phobl ifanc yn hollbwysig. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn cael barn a safbwyntiau rhieni, disgyblion ac ysgolion ac yn gweithio ar y cyd â nhw i sicrhau canlyniad llwyddiannus.

**Ar ôl adolygu'r papur cynnig yn fanwl a chynnal trafodaeth gynhwysfawr, ac ar ôl derbyn y sicrwydd a ddarparwyd ar y materion a godwyd, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol argymell y papur cynnig a'r cynnig canlynol i'r Pwyllgor Gwaith i'w gymeradwyo -**

- **"Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer dysgwyr 11-18 oed", ac**
- **Awdurdodi Swyddogion i gynnal yr ymgynghoriad statudol angenrheidiol.**

**Y Cynghorydd Jeff Evans**
**Cadeirydd**

DRAFT